# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

**RHAN 2**

NEWID YN YR HINSAWDD

*Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: y prif ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru*

## 29 Targed allyriadau 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin.

(2) Gweler adran 33 am ystyr "cyfrif allyriadau net Cymru", a gweler adran 38 am ystyr y "waelodlin".

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) fel ei bod yn pennu canran sy'n fwy nag 80%.

(4) Yn y Rhan hon, cyfeirir at y targed yn is-adran (1) fel "targed allyriadau 2050".

## 30 Targedau allyriadau interim

(1) Ar gyfer pob blwyddyn darged interim rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a fynegir fel canran islaw'r waelodlin ("targed allyriadau interim").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn darged interim yn uwch na'r targed allyriadau interim ar gyfer y flwyddyn honno.

(3) Y blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y targedau allyriadau interim cyn diwedd 2018.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

### 31 Cyllidebau carbon

(1) Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, rhaid i Weinidogion Cymru osod drwy reoliadau gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ("cyllideb garbon").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(3) Y cyfnodau cyllidebol yw—

(a) 2016 i 2020, a

(b) pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, sy'n dod i ben â 2046 i 2050.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod y cyllidebau carbon ar gyfer y ddau gyfnod cyllidebol cyntaf cyn diwedd 2018, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer y trydydd cyfnod cyllidebol a'r cyfnodau cyllidebol diweddarach o leiaf bum mlynedd cyn dechrau'r cyfnod o dan sylw.

### 32 Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: egwyddorion

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod pob targed allyriadau interim ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd—

(i) targed allyriadau 2050, a

(ii) y targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim sydd o fewn y cyfnod cyllidebol hwnnw neu'n dod ar ei ôl.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau interim neu gyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni—

(a) eu bod wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud y newid o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol o ran—

(i) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd, neu

(ii) cyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;

(b) bod y corff cynghori wedi argymell y newid;

(c) bod y newid yn gysylltiedig â darpariaeth a wneir o dan adran 35(1) neu 37(2).

(3) Wrth wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ar gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru,

(b) yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2),

(c) yr adroddiad diweddaraf (os oes un) o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (adroddiad cenedlaethau'r dyfodol),

(d) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd,

(e) technoleg sy'n berthnasol i newid yn yr hinsawdd, ac

(f) cyfreithiau a pholisïau'r UE a chyfreithiau a pholisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys cytundebau rhyngwladol ar fesurau a gynlluniwyd i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang).

(4) Mae adrannau 49 a 50 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyngor y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gael gan y corff cynghori, a'i ystyried, cyn gwneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon.